

## PRIFYSGOL BANGOR

### PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

**Cyfarfod:** 1 Tachwedd 2017

**Preseanol:** Yr Athro P Spencer (Cadeirydd), Mr S Barnard, Miss S Barnes, Mrs T Hibbert, Mr A Jones, Dr L Jones, Mr W Jones, Mrs M Lake, Ms C Monks, Dr L Murphy, Miss E Riches, Dr H Roberts, Mr S Roberts, Mrs E Parry Williams, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

**Ymddiheur iadau:** Mr H Ellis, Dr J Latchford, Dr K Mundy, Yr Athro C Tully.

#### 520. COFNODION

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 24 Mai 2017.

#### 521. MATERION YN CODI

- a) 515 Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch: Nid oedd cadeirydd y grŵp tasg yn bresennol felly ni chlywyd y diweddaraf am drafodaethau'r grŵp tasg ynglŷn â sut i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â gwaith y Bwrdd Cynaliadwyedd Ariannol, a'i grwpiau gweithredu. Cytunwyd i ohirio'r mater hwn tan y cyfarfod nesaf.
- b) 515 Gwasanaethau Eiddo a'r Campws: Nid oedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Eiddo a'r Campws yn bresennol ac felly ni chyflwynwyd unrhyw wybodaeth i'r grŵp tasg ynglŷn â chyfyngiadau o ran adnoddau a threfniadau i liniaru effaith y cyfyngiadau hynny. Cytunwyd i ohirio'r mater hwn tan y cyfarfod nesaf.
- c) 517(c) Radon: Nodwyd bod y Gwasanaethau Eiddo a'r Campws yn parhau i geisio â chael y contractwr oedd yn gyfrifol am gynllunio a gosod y systemau lliniaru radon yn Ardudwy yn ôl i'r safle er mwyn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â chynllun ac ansawdd y gosodiad.
- d) 517(d) Anafiadau Codi a Chario: Oherwydd nad oes digon o ddata i weld unrhyw dueddiadau am anafiadau i ddwylo/breichiau o achos gweithgareddau codi a chario, ni chynigir gwneud unrhyw waith pellach ar hyn o bryd.

#### 522. GRŴP TASG IECHYD A DIOGELWCH

Nid yw'r grŵp tasg wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Cytunwyd y byddai'r cadeirydd yn trafod swyddogaeth y grŵp tasg ymhellach gyda'r Pwyllgor Gweithredu.

**GWEITHREDU:** Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch

#### 523. ADRODDIADAU ARCHWILIO/ADOLYGU

Ers y cyfarfod diwethaf, mae'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch wedi cyflawni dau archwiliad adrannol gan ddefnyddio'r system sgorio ddiwygiedig. Nodwyd nad yw'r system sgorio ddiwygiedig yn caniatáu i berfformiad coleg/adran symud i'r lefel nesaf

(arfer sylfaenol, arfer da ac arfer gorau) nes cyrraedd cydymffurfriad o 100% yn y lefel perfformiad blaenorol.

### 523a **Canolfan Addysg Ryngwladol**

Darganfu'r archwiliad bod trefniadau'r adran i reoli iechyd a diogelwch o safon 'arfer da', a dim ond nifer fechan o gamau gweithredu a nodwyd.

Roedd y gefnogaeth ragorol mae'r adran yn ei chynnig i'w myfyrwyr rhyngwladol i sicrhau eu bod yn cael profiad cadarnhaol ym Mangor yn amlwg yn ystod yr archwiliad.

Mae'r adran wedi gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch i ddatblygu ei system reoli iechyd a diogelwch ac mae'r cyfarwyddwr, uwch reolwyr a'r cydlynnydd iechyd a diogelwch yn yr adran wedi bod yn ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch.

### 523b **Neuaddau Preswyl**

Gwelwyd bod trefniadau'r adran i reoli iechyd a diogelwch o safon 'arfer da'. Nodwyd nifer fechan o gamau gweithredu. Roedd y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yn ymwneud â'r angen i arddangos tystysgrifau landlord 'Gas Safe' mewn adeiladau perthnasol.

Tynnodd yr archwiliad sylw at ymrwymiad eithriadol y tîm Neuaddau, sy'n cynnwys y wardeiniaid a Bywyd Campws, i sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch cadarn yn eu lle. Mae hyn yn hanfodol mewn adran o'r fath sy'n gweithredu er lles ei chwsmeriaid, ac oherwydd natur risg uchel y gwasanaethau y mae'n eu darparu i fyfyrwyr.

Rhoddyd canmoliaeth benodol i'r tîm gweithrediadau, sy'n gyfrifol am gyflawni nifer o swyddogaethau i sicrhau bod safonau iechyd a diogelwch da yn cael eu bodloni a'u cynnal a'r tîm wardeiniaid am eu cefnogaeth ragorol i fyfyrwyr yn ystod eu hamser yn y neuaddau.

## 524 **ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH**

Rhoddyd crynodeb o Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2016/2017, a ddosbarthwyd yn flaenorol, a nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- a. ***Damweiniau a Digwyddiadau:*** Cafwyd adroddiadau am 58 damwain a achosodd anaf i staff a myfyrwyr (34 i staff a 24 i fyfyrwyr). Mae hyn yn ostyngiad o'r 78 damwain a achosodd anaf yn 15/16.

Y gymhareb damweiniau a achosodd anaf i staff oedd 16.5 o ddamweiniau i bob 1,000 o aelodau staff, gostyngiad o'r 22.4 damwain i bob 1,000 a adroddwyd yn 2015/16. Mae'r gymhareb o ddamweiniau a achosodd anaf i staff a myfyrwyr yn sylweddol is na'r hyn sy'n arferol yn y sector.

- b. ***Damweiniau a achosodd gollu amser o'r gwaith:*** Roedd 5 digwyddiad y collwyd amser o'r gwaith o'u herwydd, i gyd yn rai oedd yn gysylltiedig â chodi a chario. Roedd y ddau ddigwyddiad a achosodd gollu dros 8 diwrnod o waith yn ymwneud â heintiad, yn dilyn toriad difrifol, ac roedd y digwyddiad arall oherwydd cymhlethdodau pellach yn deillio o'r anaf.
- c. ***Absenoldeb Salwch:*** Roedd nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldebau tymor byr yn parhau i fod yn sefydlog, a gostyngodd absenoldebau tymor canolig (8-20 diwrnod) ond cynyddodd absenoldebau tymor hir yn 2016/17. Yn 2016/17, collwyd 9,106 o ddyddiau gwaith o ganlyniad i absenoldeb salwch a adroddwyd gan 30.8% o'r staff, mae hyn yn cyfateb i 5.38 diwrnod/CALI neu

2.47% o oriau gwaith yn cael ei golli oherwydd absenoldeb salwch.

- d. **Larymau Tân yn Canu:** Cafwyd 121 achos o larymau tân yn canu yn adeiladau'r brifysgol (56 mewn adeiladau academaidd a 65 mewn neuaddau preswyl). Daeth y Gwasanaeth Tân ac Achub allan 34 o weithiau, 29 ohonynt i neuaddau preswyl.
- e. **Tanau:** Cafwyd un tân (yn unol â'r diffiniad). Roedd hwn yn ddigwyddiad a ystyrir fel ymgais fwriadol i ddechrau tân, ond ni achoswyd unrhyw ddifrod sylweddol.
- f. **Hyfforddiant iechyd a diogelwch cyffredinol:** Yn ystod y flwyddyn, trefnodd y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch 67 o gyrsiau "wyneb yn wyneb" i 299 o gyfranogwyr.
- g. **Cynefino cyffredinol i aelodau staff:** Mae darparu gwybodaeth a hyfforddiant addas am iechyd a diogelwch i aelodau staff yn ofyniad statudol. Un agwedd ar hyn yw sesiwn cynefino'r brifysgol, a drefnir gan Adnoddau Dynol. Yn 16/17, daeth 79% o aelodau staff newydd i'r sesiwn cynefino. Mae hyn yn 16% yn uwch na 15/16.  
Nodwyd bod trefniadau i gofnodi sesiynau cynefino iechyd a diogelwch lleol yn parhau i fod yn wendid ar draws y brifysgol.
- h. **Teithio Dramor:** Cofnododd 1,513 o staff/myfyrwyr deithiau tramor ar y gronfa ddata yswiriant ganolog. O'r rhain, adroddwyd am 6 digwyddiad lle bu'n rhaid i staff/myfyrwyr gael sylw meddygol dramor.  
Cafwyd un digwyddiad difrifol dramor, pan ymosodwyd ar fyfyrwr. Gwnaeth y myfyrwr wella'n llwyr a pharhau gyda'i astudiaethau.
- i. **Digwyddiadau'n ymwneud â cherbydau:** Ni fu unrhyw hawliadau am ddifrod i gerbydau'r brifysgol. Bu 8 hawliad (staff a myfyrwyr) yn ymwneud â difrod i gerbydau wedi eu llogi. Nid oedd unrhyw anafiadau.
- j. **Achosion sifil i hawlio iawndal:** Cafwyd un achos sifil newydd i hawlio iawndal am anaf personol yn ymwneud ag aelod o'r cyhoedd a digwyddiad llithro/syrthio.
- k. **Adroddiadau am ddigwyddiadau na achosodd anafiadau:** Derbyniwyd 154 o adroddiadau am ddigwyddiadau na achosodd anafiadau. Roedd y rhain yn cynnwys 19 adroddiad am salwch/cyflwr meddygol, 102 am ddigwyddiadau a allai fod wedi achosi damwain a 33 adroddiad am arfer anniogel.
- l. **Arolygiadau safleoedd:** Cynhaliodd y Gwasanaethau Eiddo a'r Campws 129 o arolygiadau safleoedd yn 16/17: Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd yn y dyfodol y byddai'r data yn cael ei rannu'n arolygiadau mewnol (staff Gwasanaethau Eiddo a'r Campws) ac arolygiadau contractwyr.
- m. **Tŷ Gobaith:** Codwyd dros £3000 i'r elusen yn 16/17.

## 525 EITEMAU GAN AELODAU'R PWYLLGOR

Dim.

**526. UNRHYW FATER ARALL**

Ni nodwyd unrhyw eitemau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 31 Ionawr 2018 am 9.30am yn Ystafell Gynhadledd 3 Y Teras.**